O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 3024 (Cy. 299) (C. 124)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 3) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r trydydd gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 3 Rhagfyr 2013 Ran 4 (Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg) o Ddeddf 2013.

### NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 38, 39, 97 a 98 | 26 Ebrill 2013 i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn ymwneud â gwneud a gosod y Cod Trefniadaeth Ysgolion | O.S. 2013/1000 (Cy.105) |
| Adrannau 38 a 39 | 1 Hydref 2013 yn llawn | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Pennod 2 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |

| | | |
|---|---|---|
| Pennod 3 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Pennod 4 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Pennod 5 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Pennod 6 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Adrannau 97 a 98 | 4 Mai 2013 yn llawn | O.S. 2013/1000 (Cy.105) |
| Adran 99 | 1 Hydref 2013 i’r graddau y mae’n ymwneud â’r diwygiadau a wneir gan Ran 2 o Atodlen 5 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Atodlen 2 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Atodlen 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Paragraffau 1 i 7 a pharagraffau 9 i 39 o Atodlen 4 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Rhan 2 o Atodlen 5 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 3024 (Cy. 299) (C. 124)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 3) 2013

*Gwnaed* *2 Rhagfyr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 100 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 3) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 3 Rhagfyr 2013**

**2.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â Rhan 4 (adrannau 84 i 87) o Ddeddf 2013 i rym yw 3 Rhagfyr 2013.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

2 Rhagfyr 2013

(**1**) 2013 dccc 1.